# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 31 Ionawr 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

## 187(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Cwnsler Cyffredinol ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(10 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i Weinidog yr Economi

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau mewn perthynas â Fferm Gilestone yn dilyn y Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 29 Ionawr 2024?

**Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**

Alun Davies (Blaenau Gwent): A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am y goblygiadau i Gymru o ran y cytundeb i adfer llywodraeth ddatganoledig yng Ngogledd Iwerddon?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.17(iii) mewn perthynas â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

(5 munud)

**NDM8466** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 26.17(iii), yn cytuno y dylai trafodion Cyfnod 2 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) gael eu hystyried gan Bwyllgor o'r Senedd Gyfan.

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

## 7 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog – Adolygiad cyfyngedig o weithdrefnau Biliau Cydgrynhoi

(5 munud)

**NDM8472** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Adolygiad cyfyngedig o weithdrefnau Biliau Cydgrynhoi', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2024.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 26C, fel y nodir yn Atodiad A i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

## 8 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod – Bil i sefydlu goruchwyliaeth strwythuredig o reolwyr y GIG

(30 munud)

**NDM8434** Mabon ap Gwynfor (Dwyfor Meirionnydd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil i sefydlu goruchwyliaeth strwythuredig o reolwyr y GIG, ar ffurf corff rheoleiddio.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) sefydlu corff rheoleiddio proffesiynol ar gyfer GIG Cymru i ddiffinio'r safonau proffesiynol a ddisgwylir gan reolwyr GIG Cymru a bod yn lle i droi ar gyfer y rhai sy'n teimlo nad yw'r safonau hynny wedi cael eu bodloni gan unrhyw reolwr unigol GIG Cymru, a byddai ganddo'r pŵer i rybuddio, cosbi neu dynnu unrhyw reolwr GIG Cymru oddi ar ei gofrestr a gynhelir;

b) diffinio beth yw rheolwr GIG Cymru a chynnal cofrestr o reolwyr GIG Cymru; ac

c) ei gwneud yn ofynnol i holl reolwyr y GIG fod wedi'u cofrestru gyda'r corff rheoleiddio proffesiynol.

## 9 Dadl ar ddeiseb P-06-1359 a deiseb P-06-1362 ynghylch cymorth ar gyfer costau gofal plant

(30 munud)

**NDM8467** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r deisebau canlynol ynghylch cymorth ar gyfer costau gofal plant:

a) deiseb 'P-06-1359 Dylid cynnig yr un cymorth ariannol ar gyfer gofal plant i rieni sy'n gweithio yng Nghymru â'r hyn sydd ar gael yn Lloegr' a gasglodd 10,820 o lofnodion; a

b) deiseb 'P-06-1362 Dylid darparu cynnig cyfatebol yng Nghymru i'r cynnig gofal plant newydd yn Lloegr, sef 15 awr, ar gyfer plant 2 flwydd oed o fis Ebrill 2024' a gasglodd 407 o lofnodion.

## 10 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - Cysylltiadau Rhyngwladol: Adroddiad Blynyddol 2022-23 - Gohiriwyd

(0 munud)

## 11 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - Y tu ôl i'r llenni: Gweithlu'r diwydiannau creadigol - Ail-drefnwyd o 24 Ionawr 2024

(60 munud)

**NDM8458** Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol 'Y tu ôl i'r llenni: Gweithlu'r diwydiannau creadigol', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Hydref 2023.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Ionawr 2024.

## 12 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Rhyddhad ardrethi busnes

(30 munud)

**NDM8469** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn gresynu bod Llywodraeth Cymru yn torri'r gyfradd rhyddhad ardrethi busnes o 75 y cant i 40 y cant ar gyfer y sector manwerthu, lletygarwch a hamdden yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024-2025.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adfer y gyfradd rhyddhad ardrethi busnes o 75 y cant ar gyfer y sector manwerthu, lletygarwch a hamdden er mwyn cefnogi busnesau a diogelu swyddi.

**Cefnogwyr**

Joel James (Canol De Cymru)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn croesawu'r ffaith bod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, a hynny er gwaethaf y ffaith ei bod werth £1.3 biliwn yn llai mewn termau real nag ydoedd adeg ei gosod yn 2021:

a) yn darparu pecyn o gymorth ar gyfer ardrethi annomestig sydd werth £384 miliwn;

b) yn rhoi cap o 5 y cant ar y cynnydd yn sgil chwyddiant i'r lluosydd ardrethi annomestig; ac

c) yn darparu rhyddhad o ran ardrethi annomestig i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch am y pumed flwyddyn yn olynol, gan adeiladu ar y cymorth sydd werth bron i £1 biliwn a ddarparwyd ers 2020-21.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Luke Fletcher (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegwch pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu ymhellach at setliad cyllid presennol Trysorlys y DU nad yw'n ystyried anghenion Cymru.

**Gwelliant 3** Luke Fletcher (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i symud oddi wrth ardrethi annomestig, cyhoeddi amserlen ar gyfer eu gwaith, a sicrhau bod map ffordd ar gyfer pontio allan o ardrethi annomestig yn cael ei ddarparu yn ogystal ag opsiynau ar gyfer system newydd.

## 13 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Darlledu rygbi'r Chwe Gwlad

(30 munud)

**NDM8470** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod y sylwadau a wnaed gan Syr John Whittingdale AS, Gweinidog Gwladol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, y byddai Llywodraeth y DU yn edrych eto ar y digwyddiadau a rhestrir pe bai Senedd Cymru yn dadlau'n gryf iawn o blaid hynny.

2. Yn galw ar Lywodraeth y DU i gynnwys gemau rygbi'r chwe gwlad yn y categori am ddim at ddibenion darlledu.

## 14 Cyfnod Pleidleisio

## 15 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8468** Sarah Murphy (Pen-y-Bont ar Ogwr)

Methiant y galon - Mae arloesi yn achub bywydau

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 6 Chwefror 2024

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 24/01/2024 i'w hateb ar 31/01/2024

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG CYFIAWNDER CYMDEITHASOL A'R PRIF CHWIP

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

1 OQ60590 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cael ei rhoi ar waith er budd pobl anabl yng Nghymru?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

2 OQ60612 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella cynhwysiant digidol yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

**Peter Fox** *Mynwy*

3 OQ60622 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyn-filwyr i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

4 OQ60608 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith mesuryddion rhagdalu ar dlodi tanwydd?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

5 OQ60594 **(e)**

Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i effaith argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru ar gyfiawnder cymdeithasol?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

6 OQ60599 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

7 OQ60597 **(w)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o'r cysylltiad rhwng tlodi a'r lefel uchel o ysmygu ymysg merched beichiog yn Arfon?

8

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

OQ60619 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol?

9

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

OQ60604 **(e)**

Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur sut y mae'r Siarter Budd-daliadau Cymru newydd yn gwella mynediad at fudd-daliadau yng Nghymru?

10

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

OQ60585 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth Llywodraeth Cymru i fanciau bwyd?

11

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

OQ60610 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith y gronfa gynghori sengl o ran gwneud gwasanaethau cynghori yn hygyrch i bobl na fyddent yn eu defnyddio fel arfer neu bobl nad oeddent wedi eu defnyddio o'r blaen?

12

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

OQ60620 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith bosibl llai o ddosbarthiadau llythyrau gan y Post Brenhinol ar drigolion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yng Nghymru?

## CWNSLER CYFFREDINOL A GWEINIDOG Y CYFANSODDIAD

1

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

OQ60616 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o nifer y trigolion yng Nghymru y mae sgandal Horizon Swyddfa'r Post wedi effeithio arnynt?

2

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ60602 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru ar ddatganoli polisi ynni?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

3 OQ60615 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynglŷn ag ymgyrch Hillsborough Law Now?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

4 OQ60614 **(e)**

Beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ar ddatganoli plismona i Gymru?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

5 OQ60593 **(e)**

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru ar ddatganoli plismona a chyfiawnder?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

6 OQ60588 **(w)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau datganoli cyfiawnder a phlismona?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

7 OQ60627 **(e)**

Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i ganfyddiad y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru o ran egwyddor cydsyniad deddfwriaethol?

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

8 OQ60624 **(e)**

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru ar effaith Deddf Iechyd Meddwl 1983 ar gleifion o Gymru sy'n defnyddio gwasanaethau yng ngwledydd eraill y DU?

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

9 OQ60611 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch effaith technoleg adnabod wynebau ar gyfiawnder yng Nghymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

10 OQ60603 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o effaith bosibl Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ar y nifer sy'n pleidleisio?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

11

OQ60595 **(e)**

Pa ystyriaeth y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i rhoi i'r argymhellion yn adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru ar gonfensiwn Sewel?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

12

OQ60596 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o effeithiolrwydd ymgysylltiad y llywodraethau datganoledig o ran cysylltiadau rhwng yr UE a'r DU ar ôl Brexit?

## COMISIWN Y SENEDD

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

1

OQ60606 **(e)**

Pa gamau y mae'r Comisiwn yn eu cymryd i sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu haddysgu am rôl y Senedd?

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

2

OQ60626 **(e)**

Pa gamau y mae'r Comisiwn yn eu cymryd i annog ysgolion yn Nyffryn Clwyd i ymweld â'r Senedd?